# Ysbrydoli i Weithio Gorllewin Cymru a'r Cymoedd - Astudiaeth Achos 1

Atgyfeiriwyd X at Ysbrydoli i Weithio gan y gwasanaeth Iechyd Emosiynol Ieuenctid yn ystod cyfyngiadau symud COVID ym mis Mawrth 2020.

Roedd gan X ddiffyg hyder ac roedd arni angen rhywfaint o waith ymgysylltu, yn ogystal â sgiliau, i lenwi ei hamser ac i'w ffocysu ei hun tra oedd yn ynysu, a hynny er mwyn ymdopi a chynnal ei llesiant yn ystod yr argyfwng. Roedd Ysbrydoli yn cynnig gweithgareddau ychwanegol yn ystod y cyfyngiadau symud i gynorthwyo gyda'r diflastod a'r unigedd. Ymunodd X â'r gweithiwr Ysbrydoli a'i cefnogodd i gymryd rhan mewn cwrs grŵp rhithwir ar sgiliau crefft.

Dechreuodd X fagu hyder nes iddi deimlo'n barod i ymgysylltu a dechrau chwilio am addysg a chyflogaeth, felly cafodd ei chofrestru ar gyfer Ysbrydoli i Weithio.

Cwblhaodd X asesiad seren a chynllun gweithredu, a amlygodd ei bod yn chwilio am waith yn y diwydiant arlwyo. Roedd Ysbrydoli wedi cefnogi X i lunio CV proffesiynol ac amryw o lythyrau eglurhad swydd-benodol ar gyfer swyddi, a'r rheiny yn ei chymuned leol am na allai X yrru ac am ei bod yn dibynnu ar gludiant cyhoeddus.

Roedd gan X sylfaen gref iawn o gymwysterau pobi, ond nid oedd ganddi brofiad mewn rolau wyneb yn wyneb mewn sefyllfaoedd gwaith. Roedd gan X Awtistiaeth hefyd, a chanfu fod hyn yn rhwystr wrth iddi geisio sicrhau gwaith ac yn ergyd i'w hyder.

Felly, aeth gweithiwr Ysbrydoli ati i atgyfeirio X at Swyddog Cyswllt Cyflogaeth Ysbrydoli iddi geisio cyflawni cymhwyster sgiliau cyf-weld fel y gallai fagu hyder a meithrin gwybodaeth am y modd i fynd i gyfweliadau ac ateb cwestiynau, a pharatoi ar gyfer cyfweliad ffug. Cwblhaodd X y cyfweliad ffug a chyflawnodd gymhwyster achrededig cenedlaethol, yn ogystal â meithrin yr hyder i fynd i gyfweliad.

Ar ben hynny, aeth gweithiwr Ysbrydoli ati i gofrestru X ar gwrs Gwasanaeth Cwsmeriaid L2 LearnDirect ar-lein, lle y gweithiodd tuag at gymhwyster ardystiedig a'i galluogodd i ddysgu sut i ddelio â chwsmeriaid a'u hanghenion mewn amgylchedd manwerthu sy'n wynebu'r cwsmer. Cwblhaodd X y dystysgrif hon yn llwyddiannus hefyd.

Parhaodd Ysbrydoli i roi cymorth i X chwilio am swyddi yn wythnosol, gan ddarparu cwestiynau cyfweliad a gwybodaeth sylfaenol iddi ar gyfer swyddi penodol, a hynny trwy ymchwilio i gwmnïau a'u siopau adwerthu.

Cafodd X gymorth gan Ysbrydoli i Weithio i ymgeisio am nifer o rolau, ac, o'r diwedd, llwyddodd i sicrhau rôl yn Chef Mazenara trwy'r cynllun Kickstart. Mae bellach wedi dechrau yn y swydd ac yn ei mwynhau.

Mae X o'r farn na fyddai wedi teimlo'n ddigon hyderus i ddilyn ei llwybr gyrfa dewisol ym maes arlwyo heb y cymorth un i un dwys a'r cyrsiau grŵp, ac roedd yn hynod o ddiolchgar am y cymorth a ddarparwyd.